



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 1675 (Cy.216)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Trefniadau
Ymsefydlu ar gyfer Athrawon
Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005").

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2005 drwy hepgor y diffiniadau o "y Cynulliad Cenedlaethol" ("the National Assembly") ac "athro neu athrawes gyflenwi tymor byr" ("short term supply teacher") nad oes eu hangen bellach ar ôl y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 4 yn rhoi "Gweinidogion Cymru" yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" ym mhob man lle y mae'n digwydd yn Rheoliadau 2005.

Mae rheoliad 5 yn diwygio'r ddarpariaeth ynglŷn â hyd cyfnod ymsefydlu y mae rhaid ei wasanaethu. Mae'r diwygiad yn darparu bod rhaid i athrawon sy'n gwasanaethu cyfnod ymsefydlu drwy gwblhau cyfnodau o gyflogaeth o lai nag un tymor ysgol neu ddau hanner tymor olynol wasanaethu 380 o sesiynau ysgol (sy'n cyfateb i dri thymor ysgol).

Mae rheoliad 6 yn dileu'r gofyniad i gyfnodau o gyflogaeth fod o leiaf un tymor neu ddau hanner tymor olynol. Dim ond i gyfnodau o gyflogaeth ar ôl 1 Medi 2012 y mae hyn yn gymwys.

Mae rheoliad 7 yn diwygio'r gofynion goruchwyllo a hyfforddi yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Mae'r diwygiad yn gwneud pennaeth ysgol lle y mae cyfnod ymsefydlu'n cael ei wasanaethu yn gyfrifol am oruchwyllo a hyfforddi personau sy'n gwasanaethu cyfnod ymsefydlu o ddydd i ddydd, ac mae'n gwneud

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 1675 (W.216)

EDUCATION, WALES

The Education (Induction
Arrangements for School Teachers)
(Wales) (Amendment) Regulations
2012

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Education (Induction Arrangements for School Teachers) (Wales) Regulations 2005 ("the 2005 Regulations").

Regulation 3 amends regulation 3 of the 2005 Regulations by omitting definitions of "the National Assembly" ("y Cynulliad Cenedlaethol") and "short term supply teacher" ("athro neu athrawes gyflenwi tymor byr") which become unnecessary following the amendments made by these Regulations.

Regulation 4 substitutes "the Welsh Ministers" for "the National Assembly" in each place in which it occurs in the 2005 Regulations.

Regulation 5 amends the provision relating to the length of an induction period that must be served. The amendment provides that teachers who serve an induction period by completing periods of employment of less than one school term or two consecutive half terms must serve 380 school sessions (which is equivalent to three school terms).

Regulation 6 removes the requirement for periods of employment to be of at least one term or two consecutive half terms. This only applies for periods of employment after 1 September 2012.

Regulation 7 amends the supervision and training requirements during the induction period. The amendment makes the head teacher of a school in which an induction period is served responsible for daily supervision and training and the appropriate body responsible for the overall supervision and training of

y corff priodol yn gyfrifol am oruchwyllo a hyfforddi cyffredinol y personau hynny. Rhaid i'r goruchwyllo a'r hyfforddi y mae'r corff priodol yn gyfrifol amdanynt gynnwys goruchwyllo a hyfforddi gan berson sydd â gwybodaeth am y safonau sy'n ofynnol o dan reoliad 13 o Reoliadau 2005.

Mae rheoliad 8 yn diwygio'r weithdrefn i'w dilyn gan y corff priodol ar ôl i gyfnod ymsefydlu gael ei gwblhau drwy ddileu'r gofyniad i bennaeth ysgol wneud argymhelliad o ran p'un a yw'r safonau ymsefydlu wedi eu bodloni.

Mae rheoliadau 9 a 10 yn gwneud diwygiadau canlyniadol.

persons serving an induction period. The supervision and training for which the appropriate body is responsible must include supervision and training by a person with knowledge of the standards required by regulation 13 of the 2005 Regulations.

Regulation 8 amends the procedure to be followed by the appropriate body following completion of an induction period by removing the requirement for the head teacher of a school to make a recommendation on whether the induction standards have been met.

Regulations 9 and 10 make consequential amendments.

2012 Rhif 1675 (Cy.216)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg (Trefniadau
Ymsefydlu ar gyfer Athrawon
Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012**

Gwnaed 26 Mehefin 2012

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 28 Mehefin 2012

Yn dod i rym 1 Medi 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 19 a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 1 Medi 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau
Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru)
2005**

2. Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(1) 1998 p.30; diwygiwyd adran 19 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 139 ac Atodlen 11; Deddf Addysg 2002, Atodlen 21, paragraff 85; Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/1158) a chan Ddeddf Addysg 2011, Atodlen 2, paragraffau 1 a 14.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol fel y maent yn ymwneud â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac fe'u trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(3) O.S. 2005/1818 (Cy.146) a ddiwygiwyd gan O.S. 2012/724 (Cy.96).

2012 No. 1675 (W.216)

EDUCATION, WALES

**The Education (Induction
Arrangements for School Teachers)
(Wales) (Amendment) Regulations
2012**

Made 26 June 2012

*Laid before the National
Assembly for Wales* 28 June 2012

Coming into force 1 September 2012

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 19 and 42(6) and (7) of the Teaching and Higher Education Act 1998(1) and now vested in them(2):

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Induction Arrangements for School Teachers) (Wales) (Amendment) Regulations 2012 and they come into force on 1 September 2012.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Amendment of the Education (Induction
Arrangements for School Teachers) (Wales)
Regulations 2005**

2. The Education (Induction Arrangements for School Teachers) (Wales) Regulations 2005(3) are amended as follows.

(1) 1998 c.30; section 19 was amended by the Learning and Skills Act 2000, section 139 and Schedule 11; the Education Act 2002, Schedule 21, paragraph 85; the Local Education Authorities and Childrens Services Authorities (Integration of Functions) Order 2010 (S.I. 2010/1158) and by the Education Act 2011, Schedule 2, paragraphs 1 and 14.

(2) The functions of the Secretary of State as they relate to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and were subsequently transferred to the Welsh Ministers by Schedule 11, paragraph 30 of the Government of Wales Act 2006.

(3) S.I. 2005/1818 (W.146) amended by S.I. 2012/724 (W.96).

Diwygio rheoliad 3 (dehongli)

3.—(1) Yn rheoliad 3(1)—

- (a) hepgorer y diffiniad o "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*");
- (b) hepgorer y diffiniad o "athro neu athrawes gyflenwi tymor byr" ("*short term supply teacher*").

(2) Yn rheoliad 3(2)(b), yn lle "y mae'r corff priodol wedi penderfynu arno yn unol â rheoliad 8(2)" rhodder "a benderfynir yn unol â rheoliad 8(4)".

Rhoi "Gweinidogion Cymru" yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol"

4. Ym mhob man lle y mae'n digwydd yn rheoliadau 3, 5, 7, 13, 16 ac 20, yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Gweinidogion Cymru".

Disodli rheoliad 8 (hyd cyfnod ymsefydlu)

5. Yn lle rheoliad 8 rhodder—

"Hyd cyfnod ymsefydlu"

8.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), tri thymor ysgol fydd hyd cyfnod ymsefydlu ("y rheol tri thymor").

(2) At ddibenion cyfrifo'r cyfnod ymsefydlu caniateir i dymor ysgol fod naill ai'n un tymor ysgol neu'n ddau hanner tymor ysgol olynol (gan anwybyddu gwyliau).

(3) Nid yw'r rheol tri thymor yn gymwys o dan yr amgylchiadau canlynol—

- (a) pan fo cyfnod ymsefydlu'n cael ei wasanaethu mewn sefydliad lle nad yw'r flwyddyn ysgol yn cynnwys tri thymor ysgol;
- (b) pan fo cyfnod ymsefydlu'n cael ei wasanaethu gan berson mewn gwasanaeth rhan-amser;
- (c) pan fo cyfnod ymsefydlu'n cael ei wasanaethu mewn dau neu fwy o sefydliadau ar yr un pryd;
- (ch) pan fo unrhyw gyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu yn cynnwys cyfnod o lai nag un tymor ysgol;
- (d) pan nad yw'n briodol, ym marn y corff priodol, ei fod yn gymwys.

(4) Hyd cyfnod ymsefydlu pan nad yw'r rheol tri thymor yn gymwys yw—

- (a) 380 o sesiynau ysgol pan fo paragraff (3)(ch) yn gymwys; a
- (b) ym mhob achos arall, unrhyw hyd a benderfynir gan y corff priodol ar yr

Amendment of regulation 3 (interpretation)

3.—(1) In regulation 3(1)—

- (a) omit the definition of "the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*");
- (b) omit the definition of "short term supply teacher" ("*athro neu athrawes gyflenwi tymor byr*").

(2) In regulation 3(2)(b) for "the appropriate body has determined in accordance with regulation 8(2)" substitute "determined in accordance with regulation 8(4)".

Substituting "the Welsh Ministers" for "the National Assembly"

4. In each place in which it occurs in regulations 3, 5, 7, 13, 16 and 20 for "the National Assembly" substitute "the Welsh Ministers".

Substitution of regulation 8 (length of an induction period)

5. For regulation 8 substitute—

"Length of an induction period"

8.—(1) Subject to paragraphs (3) and (4) the length of an induction period is to be three school terms ("the three term rule").

(2) For the purpose of calculating the induction period a school term may be either one school term or two half school terms which (disregarding holidays) are consecutive.

(3) The three term rule does not apply in the following circumstances—

- (a) where an induction period is served at an institution at which a school year does not consist of three school terms;
- (b) where an induction period is served by a person in part time service;
- (c) where an induction period is served in two or more institutions simultaneously;
- (d) where any periods of employment counting towards an induction period consists of a period of less than one school term;
- (e) where in the opinion of the appropriate body it is not appropriate that it applies.

(4) The length of an induction period where the three term rule does not apply—

- (a) is 380 schools sessions where paragraph (3)(d) applies; and
- (b) in all other cases is such length as the appropriate body determines provided

amod nad yw'r cyfnod hwn yn llai na'r hyn sy'n gyfartal â 380 o sesiynau ysgol neu 3 thymor ysgol."

Disodli rheoliad 9 (cyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu)

6. Yn lle rheoliad 9 rhodder—

"Cyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu

9.—(1) Yr unig gyfnodau o gyflogaeth fel athro neu athrawes gymwysedig ar neu ar ôl 1 Medi 2003 ond cyn 1 Medi 2012 sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu yw:

- (a) cyfnod o gyflogaeth mewn sefydliad yng Nghymru y mae rheoliad 7(1) yn gymwys iddo nad yw'n llai nag un tymor ysgol o ran ei hyd;
- (b) cyfnod o gyflogaeth mewn sefydliad neu sefydliadau yng Nghymru y mae rheoliad 7(1) yn gymwys iddynt o ddau hanner tymor ysgol olynol (gan anwybyddu gwyliau);
- (c) yn achos athro neu athrawes unigol, cyfnod o gyflogaeth mewn sefydliad yng Nghymru y mae rheoliad 7(1) yn gymwys iddo o unrhyw hyd arall sy'n briodol ym marn y corff priodol; neu
- (ch) cyfnod o gyflogaeth mewn ysgol neu goleg AB yn Lloegr pe byddai'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu o dan Reoliadau Ymsefydlu Lloegr.

(2) Yr unig gyfnodau o gyflogaeth fel athro neu athrawes gymwysedig ar neu ar ôl 1 Medi 2012 sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu yw:

- (a) cyfnod o gyflogaeth mewn sefydliad yng Nghymru y mae rheoliad 7(1) yn gymwys iddo nad yw'n llai nag un sesiwn ysgol o ran ei hyd;
- (b) cyfnod o gyflogaeth mewn ysgol neu goleg AB yn Lloegr pe byddai'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu o dan Reoliadau Ymsefydlu Lloegr."

Disodli rheoliad 12 (goruchwylio a hyfforddi yn ystod y cyfnod ymsefydlu)

7. Yn lle rheoliad 12 rhodder—

"Goruchwylio a hyfforddi yn ystod y cyfnod ymsefydlu

12.—(1) Mae pennaeth sefydliad yng Nghymru lle y mae person yn gwasanaethu cyfnod ymsefydlu yn gyfrifol am oruchwylio a hyfforddi'r person hwnnw o ddydd i ddydd.

(2) Mae corff priodol mewn perthynas â sefydliad yn gyfrifol am oruchwylio a hyfforddi

that this period is not less than the equivalent of 380 school sessions or 3 school terms."

Substitution of regulation 9 (periods of employment counting towards an induction period)

6. For regulation 9 substitute—

"Periods of employment counting towards an induction period

9.—(1) The only periods of employment as a qualified teacher on or after 1 September 2003 but before 1 September 2012 that count towards an induction period are:

- (a) a period of employment in an institution in Wales to which regulation 7(1) applies of not less than one school term in duration;
- (b) a period of employment in an institution or institutions in Wales to which regulation 7(1) applies of two half school terms which (disregarding holidays) are consecutive;
- (c) in the case of an individual teacher a period of employment in an institution in Wales to which regulation 7(1) applies of such other length as the appropriate body considers appropriate; or
- (d) a period of employment in a school or FE college in England if it would count towards an induction period under England's Induction Regulations.

(2) The only periods of employment as a qualified teacher on or after 1 September 2012 that count towards an induction period are:

- (a) a period of employment in an institution in Wales to which regulation 7(1) applies of not less than one school session in duration;
- (b) a period of employment in a school or FE college in England if it would count towards an induction period under England's Induction Regulations. "

Substitution of regulation 12 (supervision and training during the induction period)

7. For regulation 12 substitute—

"Supervision and training during the induction period

12.—(1) The head teacher of an institution in Wales in which a person serves an induction period is responsible for the daily supervision and training of that person.

(2) The appropriate body in relation to an institution is responsible for the overall

cyffredinol person sy'n gwasanaethu cyfnod ymsefydlu yn y sefydliad hwnnw.

(3) Rhaid i'r goruchwyllo a'r hyfforddi o dan baragraff (2) gynnwys goruchwyllo a hyfforddi gan berson sydd â gwybodaeth am y safonau a grybwyllir yn rheoliad 13."

Disodli rheoliad 14 (cwblhau cyfnod ymsefydlu)

8. Yn lle rheoliad 14 rhodder—

"Cwblhau cyfnod ymsefydlu

14.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu—

- (a) os yw'r person hwnnw'n cael ei gyflogi mewn sefydliad yng Nghymru pan gwblheir y cyfnod ymsefydlu, neu
- (b) os yw sefydliad y pennaeth arweiniol yng Nghymru pan gwblheir cyfnod ymsefydlu sy'n cael ei wasanaethu mewn dau neu fwy o sefydliadau ar yr un pryd.

(2) O fewn y cyfnod o ugain niwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cwblhawyd y cyfnod ymsefydlu, rhaid i'r corff priodol benderfynu—

- (a) a yw'r person sydd wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu wedi bodloni'r safonau a grybwyllir yn rheoliad 13 ac felly wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu yn foddhaol;
- (b) a ddylai cyfnod ymsefydlu'r person sydd wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu gael ei estyn yn unol ag unrhyw gyfnod y bydd y corff priodol yn penderfynu arno; neu
- (c) a yw'r person sydd wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu wedi methu â chwblhau cyfnod ymsefydlu yn foddhaol.

(3) Rhaid i'r corff priodol roi sylw i unrhyw sylwadau ysgrifenedig sydd wedi dod i law oddi wrth y person o dan sylw cyn gwneud penderfyniad o dan baragraff (2).

(4) O fewn y cyfnod o dri diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y gwnaeth benderfyniad o dan baragraff (2), rhaid i'r corff priodol—

- (a) rhoi hysbysiad ysgrifenedig am ei benderfyniad—
 - (i) i'r person o dan sylw,
 - (ii) yn achos ysgol berthnasol neu goleg AB, i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r coleg lle y mae'r person yn cael ei gyflogi,
 - (iii) yn achos ysgol annibynnol, i'r perchennog,
 - (iv) i bennaeth y sefydliad lle'r oedd y person a oedd yn gwasanaethu'r cyfnod ymsefydlu yn cael ei gyflogi

supervision and training of a person serving an induction period at that institution.

(3) The supervision and training under paragraph (2) must include supervision and training by a person with knowledge of the standards mentioned in regulation 13."

Substitution of regulation 14 (completion of an induction period)

8. For regulation 14 substitute—

"Completion of an induction period

14.—(1) This regulation applies where a person has completed an induction period if—

- (a) at the completion of the induction period, that person is employed at an institution in Wales, or
- (b) at the completion of an induction period served in two or more institutions simultaneously, the lead head teacher's institution is in Wales.

(2) Within the period of twenty working days beginning with the date on which the induction period was completed the appropriate body must decide whether the person who has completed an induction period—

- (a) has achieved the standards mentioned in regulation 13 and has accordingly satisfactorily completed an induction period;
- (b) should have the induction period extended by such period as it determines; or
- (c) has failed satisfactorily to complete an induction period.

(3) The appropriate body must have regard to any written representation received from the person concerned before making a decision under paragraph (2).

(4) The appropriate body must within the period of three working days beginning with the date on which it made a decision under paragraph (2)—

- (a) give written notice of its decision to—
 - (i) the person concerned,
 - (ii) in the case of a relevant school or a FE college, the governing body of the school or college at which the person is employed,
 - (iii) in the case of an independent school, the proprietor,
 - (iv) the head teacher of the institution at which the person serving the induction period was employed at the

- ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu,
- (v) os nad yw'r person hwnnw yn cael ei gyflogi gan y corff priodol, i'w gyflogwr (os nad oes hawl gan y cyflogwr i gael hysbysiad o dan baragraff (ii) neu baragraff (iii) uchod), a
 - (vi) i'r Cyngor; a
- (b) os gwnaeth y corff priodol benderfyniad sy'n dod o fewn paragraff (2)(b) neu (c), rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r person o dan sylw am—
- (i) ei hawl i apelio at y Cyngor yn erbyn y penderfyniad,
 - (ii) cyfeiriad y Cyngor, a
 - (iii) y cyfnod amser ar gyfer apelio.

(5) Caniateir rhoi hysbysiad o dan baragraffau (2) a (3) i berson drwy ffacsimili, post electronig neu dduilliau cyffelyb eraill sy'n gallu cynhyrchu dogfen sy'n cynnwys testun y cyfathrebiad, a bernir bod hysbysiad sy'n cael ei anfon drwy ddull o'r fath wedi ei roi pan fydd wedi dod i law ar ffurf ddarllenadwy."

Diwygio rheoliad 18 (swyddogaethau eraill y corff priodol)

9. Yn rheoliad 18, hepgorer paragraffau (2) a (3).

Diwygio Atodlen 1

10. Yn Atodlen 1—

(a) yn lle paragraff 2 rhodder—

"2. Person—

- (a) sy'n gwasanaethu cyfnod ymsefydlu (gan gynnwys cyfnod ymsefydlu sydd wedi ei estyn cyn iddo gael ei gwblhau o dan reoliad 10 neu ar ôl iddo gael ei gwblhau o dan reoliad 14 neu 17); neu
- (b) sydd wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu o'r fath ac sy'n cael ei gyflogi i weithio fel athro neu athrawes tra arhosir am benderfyniad gan y corff priodol o dan reoliad 14 o'r Rheoliadau hyn neu reoliad 16 o Reoliadau Ymsefydlu Lloegr."

(b) hepgorer paragraffau 4, 5 a 6.

(c) yn lle paragraff 22(ch) rhodder—

"(ch) naill ai—

- (i) wedi cwblhau cyfnod o brofiad proffesiynol yn llwyddiannus ar ôl hyfforddiant proffesiynol (sy'n debyg i gyfnod ymsefydlu yng Nghymru) mewn unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a gydnabyddir felly gan yr awdurdod cymwys yn y wlad honno; neu

completion of the induction period,

- (v) if that person is not employed by the appropriate body, the person's employer (if not entitled to notice under paragraph (ii) or (iii) above), and

(vi) the Council; and

(b) if the appropriate body made a decision falling within paragraph (2)(b) or (c), give the person concerned written notice of—

- (i) his or her right to appeal to the Council against the decision,
- (ii) the Council's address, and
- (iii) the time period for making an appeal.

(5) Notice under paragraphs (2) and (3) may be given to a person by facsimile, electronic mail or other similar means which are capable of producing a document containing the text of the communication, and a notice sent by such a method is to be regarded as given when it is received in legible form."

Amendment of regulation 18 (other functions of the appropriate body)

9. In regulation 18 omit paragraphs (2) and (3).

Amendment of Schedule 1

10. In Schedule 1—

(a) for paragraph 2 substitute—

"2. A person who—

- (a) is serving an induction period (including an induction period which has been extended before its completion under regulation 10 or after its completion under regulation 14 or 17); or
- (b) has completed such an induction period and is being employed to work as a teacher pending a decision of the appropriate body under regulation 14 of these Regulations or regulation 16 of England's Induction Regulations."

(b) omit paragraphs 4, 5 and 6.

(c) for paragraph 22(d) substitute—

"(d) has either—

- (i) successfully satisfied a period of professional experience following professional training (comparable to an induction period in Wales) in any country outside the United Kingdom, which is recognised as such by the competent authority of that country; or

(ii) wedi ei asesu fel un sy'n bodloni'r safonau a grybwyllir yn rheoliad 13 gan sefydliad a achredwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan reoliad 7 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 neu gan berson a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru."

(ii) been assessed as meeting the standards mentioned in regulation 13 by an institution accredited by the Higher Education Funding Council for Wales under regulation 7 of the School Teachers' Qualifications (Wales) Regulations 2012 or a person approved by the Welsh Ministers."

Leighton Andrews

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

26 Mehefin 2012

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

26 June 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.